# POPETH SYDD ANGEN I CHI WYBOD AM NEWIDABER

# CROESO ODDI WRTH Y CADEIRYDD

Yma yn UMAber, credwn fod llais pob myfyriwr yn gyfartal ac mai hon yw'r brif egwyddor y tu ôl i Newid Aber. Mae gennych chi, ein haelodau, y gallu i benderfynu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. Dwedwch wrthym ni'r hyn gallwn ni ei wneud i wella profiad y myfyrwyr a chreu newid parhaol ar y campws a thu hwnt.

Mae eich llais chi'n bwysig a dylid ei glywed ar bob lefel yng nghymuned y brifysgol, ond nid oes modd i bawb fynychu'r cyfarfodydd. Dyma pam rydyn ni wedi datblygu Newid Aber i roi cymaint o lwyfannau â phosib i drawsnewid a llywio eich profiad. O Gyngor yr Undeb i Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr, mae cymaint o ffyrdd i chi ddylanwadu ar eich cyfnod yn Aberystwyth.

Rydyn ni'n credu'n gryf mewn grym gweithredu ar y cyd a myfyrwyr yn trawsnewid eu campws, eu cymuned a'r byd o'u cwmpas. Mae Newid Aber yn rhan hanfodol o weithio i droi'r gred honno'n realiti ac rydyn ni'n eich annog chi'n gryf i fanteisio ar y cyfle hwnnw i wella eich profiad.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u creu i'ch helpu chi ddeall prosesau a strwythurau Newid Aber a sut mae modd i chi gymryd rhan a llywio ein gwaith. Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn ynglyn â sut mae modd i chi greu newid, cysylltwch â ni.

**Yr eiddoch yn ddemocrataidd,**
Gareth Edwards
Cadeirydd yr Undeb
2015-16

Lewis Donnelly
Llywydd
2015-16

NEWID ABER

# CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL

Democratiaeth yw un o brif egwyddorion UMAber ond nid yw'n hawdd deall. P'un ai'ch bod chi am gyflwyno cynnig ond nid ydych yn gwybod sut i wneud hynny neu os oes gennych awgrym ynglyn â gwneud cyfarfodydd yn fwy cynhwysol, rydyn ni gerllaw.

Mae croeso i chi gysylltu â un o'r Tîm a byddwn ni'n hapus i'ch helpu mewn unrhyw fodd.

**Lewis Donnelly**
Llywydd
undeb.llywydd@aber.ac.uk

Fel Llywydd, mae Lewis yn gyfrifol am sicrhau bod Newid Aber yn gweithio er lles ein haelodau. Trwy weithio â Thîm y Swyddogion ac eraill, rôl y Llywydd yw sicrhau bod gennych chi sawl cyfle i newid Aber er gwell.

**Gareth Edwards**
Cadeirydd yr Undeb
undeb.cadeirydd@aber.ac.uk

Mae Gareth yn gyfrifol am redeg Cyngor yr Undeb, arwain y Pwyllgor Democratiaeth a sicrhau y caiff cyfarfodydd eu cynnal yn effeithiol ac yn deg. Ei brif nod yw sicrhau bod strwythurau democrataidd UMAber yn addas i chi.

**Daniel Meehan**
Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth
undeb.democratiaeth@aber.ac.uk

Yn ogystal â chynnig hyfforddiant, mae Dan yn gyfrifol am gymorth ysgrifenyddol Cyngor yr Undeb ac yn paratoi'r agendas, cofnodion ac adroddiadau. Mae hefyd yn cydlynu ag aelodau allweddol y tîm i sicrhau eich bod chi'n derbyn yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch a bod y cyfarfodydd mor hygyrch â phosib.

# CYNGOR YR UNDEB

Cyngor yr Undeb yw prif gorff penderfynu UMAber, gyda chynrychiolwyr etholedig yn gosod cyfeiriad ein gwaith, creu polisïau i greu newid parhaol a sicrhau ein bod ni'n gweithio drosoch chi. Gellir crynhoi swyddogaeth Cyngor yr Undeb mewn 5 pwynt:

1. Trafod a phenderfynu polisïau UMAber
2. Penderfynu ar gyfeiriad Ymgyrchoedd UMAber
3. Dal Tîm y Swyddogion i gyfrif am eu gwaith
4. Codi materion sy'n effeithio ar fyfyrwyr ar y campws a thu hwnt
5. Adolygu, gwella a chymeradwyo dogfennau llywodraethu UMAber

Yn wahanol i Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr neu Gyfarfod yr Holl Fyfyrwyr, dim ond pobl sy'n aelod o'r Cyngor all bleidleisio yn y cyfarfodydd. Os ydych chi am wybod mwy ynglyn â phwy sy'n aelod o Gyngor yr Undeb, cysylltwch â ni neu gweler y ffeithlun isod.

NEWID ABER

# PWY SY'N AELOD O GYNGOR YR UNDEB?

## PWYLLGOR GWAITH

Chwaraeon, Cymdeithasau, UMCA a'r Pwyllgor Gwaith Lles

## TÎM Y SWYDDOGION

14 Swyddog Llawn amser a Rhan amser

## PARTHAU

2 Gynrychiolydd o bob Parth

## CYNRYCHIOLWYR ACADEMAIDD

Y 300 a mwy o gynrychiolwyr academaidd

## CHWARAEON A CHYMDEITHASAU

2 gynrychiolydd o Bwyllgor pob Clwb Chwaraeon a Chymdeithas

**All myfyrwyr eraill fynychu'r cyfarfod?** Mae croeso i unrhyw aelod o UMAber fynychu cyfarfodydd Cyngor yr Undeb a siarad, â chaniatâd y Cadeirydd, ond nid oes modd pleidleisio.

NEWID ABER

# CYN Y CYFARFOD

Cyn pob cyfarfod, bydd tîm UMAber yn rhoi gwybod i'n holl aelodau am amser a lleoliad y cyfarfod newydd a'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno eich syniadau. Gweler yr amserlen gyflawn gyda dyddiadau pob cyfarfod ar-lein.

Bydd y tîm yn sicrhau cewch chi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch drwy ddefnyddio pob modd o gyfathrebu sydd gennym ni. Dyma'r camau isod rydyn ni'n eu cymryd i sicrhau bod gennych chi'r holl wybodaeth sydd ei hangen i gymryd rhan:

1. **Rydyn ni am glywed eich syniadau**

   Dim ond 21 diwrnod sydd tan gyfarfod nesaf y Cyngor, ac rydyn ni yn UMAber am glywed eich syniadau ar gyfer gwella Aber hyd yn oed yn fwy. Y cyfan sydd rhaid i chi ei wneud yw cyflwyno eich syniadau ar-lein.

2. **Y dyddiad cau ar gyfer syniadau**

   10 diwrnod cyn y cyfarfod yw'r diwrnod olaf mae modd i chi gyflwyno eich syniad i'r Cyngor. Peidiwch â phoeni os ydych chi'n methu'r dyddiad cau, bydd wastad cyfarfod arall!

3. **Beth sydd ar yr Agenda**

   7 diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor, bydd y Tîm Democratiaeth yn sicrhau bod popeth sydd eu hangen arnoch ar y wefan ac yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

4. **Y Cyfarfod ei Hun**

   Ar noson y cyfarfod, bydd aelodau o'r tîm gerllaw i'ch helpu chi wneud y gorau o'r Cyngor.

5. **Cofnodion**

   Byddwn ni'n sicrhau caiff y cofnodion eu hysgrifennu, eu cyfieithu a'u huwchlwytho i'r wefan o fewn 7 diwrnod wedi'r cyfarfod.

NEWID ABER

# YN Y CYFARFOD

Dyma'r rhan o'r broses lle mai chi sy'n arwain, llywio ein gwaith a dal Tîm y Swyddogion i gyfrif. Trwy gydol pob cyfarfod, bydd y Tîm Democratiaeth gerllaw i'ch helpu chi wneud y gorau o'r Cyngor.

Rydyn ni'n argymell yn gryf eich bod chi'n darllen yr agenda, adroddiadau a'r syniadau cyn y cyfarfod fel eich bod chi'n ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei drafod. Cewch weld popeth sydd ei angen ar-lein.

Rydyn ni'n dilyn sawl cam yn y cyfarfod i sicrhau bod y Cyngor mor effeithiol â phosib a'ch bod chi'n cael y profiad gorau posib.

1. **Cyrraedd**

   Cewch eich croesawu wrth gyrraedd a bydd ein Tîm Democratiaeth yn gofyn i chi gofrestru ac yn rhoi'r holl ddogfennau angenrheidiol i chi gan gynnwys eich cerdyn pleidleisio.

2. **Troi eich Syniadau'n Realiti**

   Unwaith mae'r Cadeirydd wedi croesawu pawb, awn ni'n syth ati a thrafod y syniadau sydd gan bobl i newid Aber.

3. **Gofyn beth mae'r Swyddogion wedi'i wneud ar eich cyfer chi**

   Ar ôl egwyl fer, bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar yr hyn mae Tîm y Swyddogion wedi'i wneud ers y cyfarfod diwethaf a'r hyn mae modd iddyn nhw ei wneud i wella'r profiad yn Aber.

# TROI EICH SYNIADAU'N REALITI

## Y Ddadl

Pan gaiff syniad ei gyflwyno i'r Cyngor a'i drafod, bydd gofyn i'r person a gyflwynodd y syniad (sef y cynigydd) gyflwyno ei syniad. Os nad oes modd iddo fynychu'r cyfarfod neu os nad yw'n dymuno siarad, mae modd iddo ofyn i fyfyriwr arall neu Swyddog siarad ar ei ran.

Dylai'r person sy'n cynnig y syniad siarad o blaid ei syniad a pham ddylai'r Cyngor ei gefnogi, cyn ateb unrhyw gwestiwn sydd gan bobl. Os nad yw rhywun yn cytuno â'r syniad, mae croeso iddo siarad yn ei erbyn a chyflwyno'i resymau pam na ddylai'r Cyngor ei gefnogi.

Pe bai angen trafod y syniad ymhellach i egluro'r hyn mae am ei gyflawni, bydd y Cadeirydd yn gofyn am ail rownd o areithiau, un o blaid y syniad ac un yn ei erbyn. Unwaith mae'r holl ddadleuon wedi gorffen, mae'r cynigydd yn rhoi crynodeb o'r syniad a chaiff ei bleidleisio arno.

## Gwelliannau

Os ydych chi'n meddwl bod angen ychwanegu rhywbeth pwysig at un o'r syniadau ar yr agenda, cewch awgrymu gwelliant. Os caiff gwelliant ei gyflwyno, bydd gofyn i'r person sy'n ei awgrymu siarad ynglyn â pham cyflwynwyd y gwelliant.

Yna, bydd rhywun yn siarad yn erbyn y gwelliant cyn bydd crynodeb o'r gwelliant arfaethedig. Yn union fel syniad, mae'r Cyngor yn pleidleisio ar y gwelliant a phe bai'n pasio, caiff ei ychwanegu at y syniad, a phe na bai'n pasio, parheir â'r gwreiddiol.

## Pleidleisio

Mae pleidleisio yn y Cyngor yn hawdd. Yn aml iawn, caiff ei wneud gan y rheiny all bleidleisio drwy godi eu cardiau pleidleisio pan ofynnir iddynt a ydyn nhw o blaid neu yn erbyn y syniad. Hefyd, ceir trydydd opsiwn os nad ydych yn siwr pa ffordd rydych chi am bleidleisio, sef ymatal.

Ceir hefyd pedwerydd opsiwn, sef 'gohirio'r bleidlais.' Pe bai hynny'n digwydd, ni chaiff y syniad ei drafod bellach a bydd yn mynd at Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr. Gweler mwy o wybodaeth ynglyn â Phleidleisiau'r Holl Fyfyrwyr ar-lein.

Yn dibynnu ar hyn y caiff ei bleidleisio arno, fel arfer bydd angen mwyafrif syml, neu fwyafrif o 2/3 mewn rhai achosion. Bydd y Cadeirydd a'r Tîm Democratiaeth yn sicrhau y cewch wybod pa fwyafrif sydd ei angen.

NEWID ABER

# TROI EICH SYNIADAU'N REALITI

## Parhau â'r Cyfarfod

Weithiau, treulir gormod o amser yn trafod rhai syniadau neu weithiau bydd pobl yn y cyfarfod yn teimlo fod y bleidlais yn agos iawn a bod angen ailgyfrif.

Mewn unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn, mae sawl opsiwn y mae modd i bobl eu cymryd i sicrhau bod y cyfarfod mor effeithiol â phosib. Gelwir y rhain yn gynigion trefniadol a bydd angen i'r person sy'n awgrymu'r cynnig ddweud wrth y Cyngor pam ddylen nhw fod o'i blaid. Cynhelir pleidlais ac mae angen mwyafrif syml neu 2/3, pa bynnag un sy'n drech.

Mae'r cynigion trefniadol yn cynnwys y canlynol:

1. **Diffyg Hyder yn y Cadeirydd**

   Bydd y cadeirydd yn rhoi'r gorau i'w rôl a bydd y Cyngor yn penodi Cadeirydd dros dro

2. **Aelod o'r Tîm Democratiaeth fydd y Cadeirydd**

   Bydd y Cyngor yn dewis aelod o'r Tîm Democratiaeth i fod yn Gadeirydd am weddill y cyfarfod.

3. **Cael gwared ar rywun yn y Cyfarfod**

   Bydd y Cyngor yn pleidleisio dros gael gwared ar rywun o'r cyfarfod am ymddwyn yn amharchus neu'n sarhaus.

4. **Dylid rhannu'r syniad yn adrannau**

   Caiff y syniad ei rannu'n adrannau er mwyn i'r Cyngor gael trafod a phleidleisio arno ar wahân i weddill y syniad

5. **Dylen ni Bleidleisio Nawr**

   Cynhelir y bleidlais yn syth

6. **Dylen ni ail-gyfri'r Bleidlais**

   Caiff y bleidlais ei hail-gyfri'n syth

7. **Newid trefn yr Agenda**

   Bydd y Cyngor yn pleidleisio o blaid symud eitemau i fyny'r agenda.

# GOFYN I'CH SWYDDOGION AM YR HYN MAEN NHW WEDI'I WNEUD AR EICH CYFER CHI

## Dal Swyddogion Llawn Amser i Gyfrif

Mae pasio polisïau yn rhan bwysig o rôl y Cyngor ond mae dal Tîm y Swyddogion i gyfrif hefyd yn rôl bwysig. Mae pob cyfarfod Cyngor yr Undeb yn gyfle i chi holi eich Swyddogion ynglyn â'r hyn maen nhw wedi bod yn ei wneud i wella profiad myfyrwyr yn Aber.

I wneud hyn yn haws i bawb, caiff pob addewid maniffesto'r Swyddogion Llawn Amser ei raddio yn ôl system oleuadau traffig. Pwrpas y system hon yw sicrhau bod y Swyddogion yn cadw at eu haddewidion a dangos eu bod nhw'n cyflawni eu hamcanion. Serch hynny, ni all y Swyddogion newid lliw'r golau traffig ar gyfer unrhyw un o'u haddewidion oni bai bod y Cyngor yn ei gymeradwyo.

Mae'r system yn un syml iawn sy'n dilyn y canllawiau canlynol:

1. **Coch**

   Coch yw'r pwynt cychwyn lle nad yw'r Swyddog wedi dechrau gweithio ar yr addewid ac fe fydd o hyd ar ei restr amcanion.

2. **Melyn**

   Mae addewid Swyddog wedi'i farcio'n felyn yn golygu ei fod yn y broses o'i gyflawni.

3. **Gwyrdd**

   Pan mae addewid wedi'i farcio'n Wyrdd, mae hwn yn cynrychioli cymeradwyaeth a bod y Swyddog wedi llwyddo cyflawni ei amcan.

Bydd y Tîm Democratiaeth yn sicr o roi gwybod i chi pa addewidion fydd angen eich cymeradwyaeth cyn y cyfarfod. Yn anffodus, nid oes modd i ni wneud hyn ar gyfer Swyddogion Rhan Amser hefyd, ond rydyn ni'n argymell yn gryf eich bod chi'n eu holi nhw a byddwn ni'n cynnwys diweddariadau rheolaidd ar eu gwaith.

## Dal Swyddogion Adran a Rhyddhad i Gyfrif

Er credwn ni ei bod hi'n bwysig dal Tîm y Swyddogion i gyfrif ynghylch eu gwaith, nid oes modd dal yr holl Dîm i gyfrif yng nghyfarfodydd y Cyngor. Yn hytrach na'r Cyngor, caiff y Swyddogion hyn eu dal i gyfrif ynghylch eu gwaith drwy eu haelodau mewn cyfarfodydd Parth. Gweler mwy ynglyn â'r rhain ar-lein

Gellir ond dal ein Swyddogion Adran i gyfrif gan fyfyrwyr sy'n hunan-ddiffinio i'r ymgyrch ryddhad neu adran honno. Er enghraifft, dim ond myfyrwyr sy'n Fenywod all ddal Swyddog y Menywod i gyfrif ar ei gwaith.

# WEDI'R CYFARFOD

Wedi pob cyfarfod Cyngor, bydd y Tîm Democratiaeth yn gweithio ar sicrhau caiff y cofnodion eu hysgrifennu, eu cyfieithu a'u huwchlwytho i'r wefan o fewn 7 diwrnod. Byddwn ni hefyd yn uwchlwytho'r syniadau llwyddiannus (wedi'u gwella neu beidio) i adran bolisïau ein gwefan a byddant yn bolisïau UMAber am 3 blynedd neu tan i'r newid gael ei wneud.

Caiff yr holl syniadau a basiwyd eu neilltuo i aelodau perthnasol Tîm y Swyddogion a byddant yn gweithredu fel bo angen er mwyn eu cyflawni. Byddwn ni'n sicrhau eich bod chi'n gwybod y diweddaraf ar gynnydd y syniadau hyn drwy gyfathrebu â'n haelodau dros ein gwahanol blatfformau.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, pryder neu sylw ynglyn â'r cofnodion neu'r syniadau, cewch godi'r rhain naill ai yn y cyfarfod nesaf neu â'r Tîm Democratiaeth ymlaen llaw.

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) yw cyfarfod pwysicaf y flwyddyn ac mae'n gyfle i'n haelodau sicrhau bod UMAber yn gwario arian ar y meysydd cywir a'n bod ni'n parhau i wella profiad myfyrwyr.

Cynhelir CCB yn yr un drefn â chyfarfod cyffredin y Cyngor ac eithrio'r ffaith y caiff sawl testun eu trafod cyn unrhyw syniad neu adroddiad swyddog. Y rheiny sy'n bresennol yn y CCB fydd yn trafod ac yn penderfynu ar y canlynol:

1. **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

   Bydd Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, sef y Llywydd, yn cyflwyno adroddiad ar weithgareddau'r Ymddiriedolwyr ers y CCB diwethaf.

2. **Cyfrifon**

   Bydd naill ai'r Llywydd neu swyddog llawn amser arall yn cyflwyno cyfrifon UMAber i sicrhau eich bod chi'n gwybod ble a sut rydyn ni'n gwario'r arian.

3. **Penodi'r Archwilwyr**

   Er mwyn sicrhau bod UMAber yn gwario pob ceiniog yn gywir, mae angen i ni benodi archwilwyr allanol. Mae'r CCB yn ffordd o sicrhau eich bod chi'n hapus â'r bobl rydyn ni'n eu dewis i wirio'r llyfrau!

4. **Cymeradwyo ein Cysylltau**

   Bob blwyddyn, mae UMAber yn talu i fod yn rhan o fudiadau cenedlaethol mawr fel UCM a BUCS, a'r CCB yw eich cyfle chi i roi gwybod i ni eich bod chi'n hapus i fod yn rhan ohonyn nhw.

Yr hyn sy'n gwneud CCB yn wahanol i Gyngor yr Undeb yw bod angen o leiaf 100 o aelodau i fynychu er mwyn i unrhyw benderfyniad fod yn ddilys. Yr unig wahaniaeth arall rhwng CCB a chyfarfod Cyngor yr Undeb yw bod modd i bob myfyriwr fynychu CCB a dweud eu dweud.

Unwaith trafodwyd a phleidleisiwyd ar y 4 pwynt uchod, mae gweddill y cyfarfod yn parhau fel cyfarfod Cyngor yr Undeb. Os ydych chi'n aelod o Gyngor yr Undeb, bydd rhaid i chi aros am weddill y cyfarfod gan mai dim ond chi all bleidleisio ar syniadau a gwaith y swyddogion.

NEWID ABER

# PLEIDLAIS YR HOLL FYFYRWYR

Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr yw'r modd dylech chi ei ddewis os yw eich syniad yn effeithio ar bob myfyriwr yn Aberystwyth. Mae'r broses hon yn rhoi cyfle i bob myfyriwr bleidleisio ar y mater dan sylw a chyfrannu'n uniongyrchol at lywio gwaith UMAber.

Enghreifftiau o syniadau fyddai fel arfer yn mynd trwy Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr yw, a ddylid cyflogi Swyddog Rhyngwladol llawn amser neu a ddylid agor Starbucks yn ein Hundeb. Mae Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr yn fodd o drafod materion mawr y mae angen barn pawb arnyn nhw.

Yn wahanol i'r Cyngor neu Gyfarfodydd yr Holl Fyfyrwyr, pwrpas Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr yw gofyn cwestiwn i'n haelodau ynghylch un mater. Bydd Tîm y Swyddogion a staff UMAber yna'n rhoi'r syniad hwnnw ar waith drwy'r ffordd fwyaf effeithiol.

NEWID ABER

# CYN Y BLEIDLAIS

Cyn unrhyw Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr, bydd tîm UMAber yn rhoi gwybod i'n holl aelodau bod pleidlais wedi'i galw, y rhesymau pam, a phryd gaiff ei chynnal. Fel cyfarfodydd y Cyngor, bydd rhaid cyflwyno eich syniadau erbyn dyddiad cau penodol. Ceir manylion ar-lein.

Bydd y tîm yn defnyddio pob platfform i sicrhau eich bod chi'n derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Dyma'r camau isod sy'n nodi'r hyn rydyn ni'n ei wneud i sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch:

1. **Rydyn ni am glywed eich syniadau**

   Mae 21 diwrnod ar ôl tan ein digwyddiad democrataidd nesaf ac rydyn ni am glywed eich syniadau am greu newid. Y cyfan sydd rhaid i chi ei wneud yw cyflwyno eich syniadau ar-lein.

2. **Y dyddiad cau ar gyfer syniadau**

   10 diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor yw'r diwrnod olaf mae modd i chi gyflwyno eich syniad ar gyfer Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr. Peidiwch â phoeni os ydych chi'n methu'r dyddiad cau, bydd wastad cyfle arall!

3. **Yr hyn sydd ar yr Agenda**

   Yng nghyfarfod nesaf Cyngor yr Undeb, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r holl syniadau sydd wedi'u cyflwyno i Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr cyn i'r bleidlais gael ei chynnal.

4. **Mae'ch Angen Chi!**

   Ar ôl y cyfarfod, bydd UMAber yn chwilio am bobl sydd â diddordeb mewn rhedeg yr ymgyrch O Blaid ac Yn Erbyn y syniadau sydd wedi mynd i Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr.

5. **Pleidleisiwch, Pleidleisiwch, Pleidleisiwch!**

   Dyma'r rhan o'r broses lle rydyn ni'n gofyn i'n haelodau bleidleisio ar y syniad sy'n cael ei gynnig. Os caiff y syniad ei basio gan yr aelodau, bydd tîm UMAber yn gweithio arno a'i droi yn realiti.

# YN YSTOD Y BLEIDLAIS

## Sut i Gymryd Rhan

Unwaith mae'r Cadeirydd wedi cyhoeddi bod yr holl syniadau wedi'u cyflwyno i Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr, bydd y tîm yn chwilio am bobl fydd â diddordeb mewn rhedeg yr ymgyrchoedd O Blaid ac Yn Erbyn. Fel unrhyw refferendwm, mae cyfle i fyfyrwyr ddod at ei gilydd ac ymgyrchu naill ai o blaid neu yn erbyn y syniad.

Fel arfer, yr unigolyn gyflwynodd y syniad fydd yn arwain yr ymgyrch O Blaid, ond nid hwn yw'r achos bob tro. Gall unrhyw fyfyriwr gynnig ei hunan i redeg yr ymgyrch O Blaid neu Yn Erbyn; y cyfan sydd angen i chi wneud yw dilyn y camau hyn:

1. **Cynigiwch Eich Hun**

   Os oes gennych chi ddiddordeb mewn rhedeg yr ymgyrch O Blaid neu Yn Erbyn, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni drwy e-bostio undeb.democratiaeth@aber.ac.uk.

2. **Creu Tîm**

   Mae'n debyg mae nid chi yw'r unig berson sy'n rhannu'r un farn â chi ar syniad sy'n cael ei gyflwyno, felly beth am ymgyrchu â nhw? Rydyn ni'n argymell yn gryf eich bod chi'n creu tîm o bobl i'ch helpu chi ymgyrchu.

3. **Lleisio'ch Barn**

   Cyn diwrnod y bleidlais, siaradwch â myfyrwyr ynglŷn â'r bleidlais, pam fo'n bwysig a'ch rhesymau dros bleidleisio O Blaid neu Yn Erbyn.

Pan fo myfyriwr wedi cynnig ei hunan i redeg yr ymgyrch O Blaid neu Yn Erbyn, bydd UMAber yn rhoi cymaint o arweiniad a chymorth â phosib. Rhaid i bob Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr yn UMAber gadw at yr un rheolau â'n hetholiadau. Fe'u gwelir ar-lein.

# YN YSTOD Y BLEIDLAIS

## Ymgyrchu

Dylai Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr ddilyn yr un rheolau rydyn ni'n eu defnyddio ar gyfer ein hetholiadau blynyddol. Fe'u gwelir ar-lein. I sicrhau tegwch a didwylledd, gofynnwn i bawb sy'n cymryd rhan ym Mhleidlais yr Holl Fyfyrwyr gadw at y rheolau hyn a'r egwyddor gyffredinol y dylai unrhyw bleidlais fod yn un agored, teg a gonest.

Fel rhan o'r cyfnod ymgyrchu, byddwn ni'n sicr o roi cyfle i'r ymgyrchoedd O Blaid ac Yn Erbyn ddadlau ar y syniad. Bydd yn gyfle hefyd i'n haelodau holi pob ymgyrch ynghylch eu rhesymau o blaid neu yn erbyn y syniad. Bydd UMAber hefyd yn rhoi cyllideb gyhoeddusrwydd i'r ddwy ymgyrch mae modd iddyn nhw ei defnyddio i brynu deunydd ar gyfer eu hymgyrchoedd. Bydd y swm hwn yn hafal i gyllideb etholiadau'r swyddogion llawn amser.

Yn ein Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr, y Swyddog Adroddol neu'r Dirprwy Swyddog Adroddol fydd â'r penderfyniad terfynol ar unrhyw ddyfarniad. Y Dirprwy Swyddog Adroddol ar gyfer unrhyw Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr fydd Rheolwr Gwasanaethau'r Aelodaeth, Andrew Morwood.

## Pleidleisio

Cynhelir unrhyw Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr ar ein gwefan, www.umaber.co.uk a bydd yn cynnwys manylion y syniad a safbwyntiau'r ymgyrchoedd O Blaid ac Yn Erbyn.

Fel ein hetholiadau, mae gan bob un o'n haelodau'r hawl i bleidleisio, ond yn wahanol i'n hetholiadau, ceir cwota. Er mwyn i unrhyw syniad y pleidleisir arno fod yn ddilys, rhaid i o leiaf 250 o aelodau bleidleisio, ac yna bydd mwyafrif syml yn ennill. Os na chaiff y cwota ei gyrraedd, caiff y syniad ei anfon at gyfarfod nesaf y Cyngor.

NEWID ABER

# AR ÔL Y BLEIDLAIS

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith mae'r bleidlais wedi cau, bydd tîm UMAber yn sicrhau caiff y canlyniadau eu rhannu â'n haelodau o fewn 3 diwrnod. Byddwn ni'n defnyddio pob modd o gyfathrebu sydd gennym i roi'r canlyniad i chi. Mae'r hyn sy'n digwydd ar ôl y bleidlais yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y canlyniad.

### 1. Pe bai canlyniad O Blaid...

Bydd tîm UMAber yn dechrau chwilio am ffyrdd o droi eich syniad yn realiti a sicrhau caiff y Cyngor ei gadw'n gyfoes â'n cynnydd.

### 2. Pe bai canlyniad Yn Erbyn...

Fel yng Nghyngor yr Undeb, ni ddaw'r syniad yn bolisi UMAber. Os ydych chi'n meddwl bod y syniad yn rhywbeth dylen ni fod yn gweithio arno, siaradwch â ni.